# NEGES Y DDRAIG
# DRAGONSPEECH

***THE NEWSLETTER OF NPC WALES***
***CYLCHLYTHYR CPC CYMRU***
***Rhifyn 11 Gwanwyn  Issue 11 Spring 2024***

## Cynhadledd Dwyflynyddol Cynrychiolwyr y CPC 2024



Mae'r CPC yn cynnal cynhadledd polisi bob dwy flynedd. Eleni, fe'i cynhaliwyd yng Nghanolfan Gynadledda Yarnfield yn Stone, Swydd Stafford. Anfonodd CPC Cymru 4 o gynrychiolwyr, sef swyddogion CPC Cymru: Cadeirydd Dereck Roberts, Is-gadeirydd Gareth Parsons, Ysgrifennydd Louisa St Bartholomew Brown-Morgan, a'r Trysorydd Melvina Richards.

Cafwyd cynigion am bolisi presennol, yn cwmpasu:

Ymgyrch Bysiau Gwell

Y GIG gyda ffocws ar hyfforddiant i staff gofal iechyd.

Pensiynau a throthwyon treth incwm

Pasiodd y gynhadledd gynnig yn gwrthwynebu Cymal 128 ac Atodlen 11 y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. Mae'r cymal yn **rhoi'r grym i'r Ysgrifennydd Gwladol fynnu bod banciau a sefydliadau ariannol yn darparu data am gyfrifon banc sy'n gysylltiedig â hawlwyr budd-daliadau, gan gynnwys pobl sy'n derbyn pensiwn y wladwriaeth,** trwy "hysbysiad gwybodaeth cyfrif".

**Y Newid yn yr Hinsawdd a Phobl Hŷn. Dywed y CPC: Mae angen i ni ailfeddwl polisi yn y DU.**

Gall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol effeithio ar bawb, ond mae tystiolaeth bendant fod pobl hŷn – pobl dros 65 oed, ac yn enwedig **pobl dros 75 oed yn wynebu effeithiau mwy difrifol o ganlyniad i lifogydd a gwres mawr.**

Mae Degawd Heneiddio Iach y Cenhedloedd Unedig (UN): cydweithrediad byd-eang dan arweiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi cadarnhau **y bydd y 10 mlynedd nesaf yn hollbwysig ar gyfer agendâu'r newid yn yr hinsawdd a heneiddio'n iach.**



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Helena Herklots CBE**

Daw tymor Comisiynydd presennol Cymru yn ei swydd i ben ym mis Awst 2024.

Hoffai CPC Cymru ddiolch i Helena am ei gwaith a'i chefnogaeth, a dymunwn yn dda iddi at y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o **benodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** a fydd yn gwasanaethu am dymor o saith blynedd yn y swydd. Bydd y broses hon yn digwydd rhwng Ionawr ac Ebrill 2024.

**Mae NPC Cymru'n ymwneud â'r broses honno.** Mae'r Cadeirydd, Dereck Roberts, a'r Ysgrifennydd, Louisa St Bartholomew-Brown Morgan, wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru i **Banel Cyfweld y Comisiynydd Pobl Hŷn.** Bydd y panel yn cyfweld ymgeiswyr i'w penodi'n Gomisiynydd newydd.

Yna byddant yn cael eu cyfweld gan banel Hollbleidiol y Senedd, a fydd yn argymell penodai.

Y Prif Weinidog, Vaughan Gething, fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ac yn cymeradwyo'n ffurfiol.

CYSYLLTIADAU I BAWB — NPC CPC — CONNECTIONS FOR ALL
Ymgyrch Cynhwysiant / Gwaharddiad Digidol — Digital Inclusion / Exclusion Campaign

Darllenwch Gylchlythyr Gweithgor Digidol CPC ar:
**Google: Connections for All 10 (npcuk.org)**

**Google: Access Denied: Profiadau pobl hŷn o allgáu digidol yng Nghymru** Mae defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol yn peri risg allgáu cymdeithasol i bobl hŷn.

- Mae allgáu digidol yn ganolog i drafodaethau am gynllunio a darparu gwasanaethau.

- Mae lleisiau pobl hŷn nad ydynt ar-lein neu sydd â sgiliau digidol cyfyngedig yn cael eu clywed a chânt ymateb.

- Mae angen gweithredu ymarferol pellach i sicrhau bod gwybodaeth a gwasanaethau nad ydynt yn ddigidol ar gael mewn mannau cymunedol, ac i gynorthwyo pobl hŷn i fynd ar-lein a bod ar-lein os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac i wneud yn ddiogel ac yn hyderus.

Mae'r Comisiynydd yn galw am weithredu o fewn y sector preifat sy'n canolbwyntio ar sicrhau:

- Bod cwsmeriaid nad ydynt ar-lein yn cael lefelau tebyg o wasanaethau â phobl sydd ar-lein.

- Bod agweddau at ddigideiddio yn bodloni canllawiau rheoleiddiol ar amddiffyn cwsmeriaid bregus yn llawn.

• Bod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid sy’n cael eu hallgáu yn ddigidol, neu sy’n cael eu hunain mewn sefyllfaoedd bregus, gan gynnwys cymorth â chostau.

**BT yn cyhoeddi amserlen gyflwyno ranbarthol ar gyfer Digital Voice Llais Digidol yng Nghymru: Gwanwyn 2024** Mae Grŵp Cynghori BT ar Digital Voice yn gynulliad o elusennau a grwpiau cynrychiolwyr y mae BT wedi’u dwyn ynghyd er mwyn deall yn well sut bydd y pontio i Digital Voice yn effeithio ar wahanol gwsmeriaid. Mae’r grŵp hwn yn chwarae rôl hanfodol wrth lywio’r gwaith o gyflwyno gwasanaeth ffôn cartref BT, Digital Voice, sy’n cael ei gyflwyno i gwsmeriaid yn y DU fesul rhanbarth. Mae CPC ac Age UK yn aelodau o’r grŵp hwnnw.

**Mae BT Openreach yn cynnal digwyddiadau Ymgysylltu trwy gydol mis Ebrill fel rhan o’r gwaith cyflwyno.**

Bydd ganddynt dîm wrth law a fydd yn gallu dweud wrthych beth yw Digital Voice, pam mae angen y newid a beth mae’n ei olygu i chi.

Nid oes rhaid i chi fwcio ymlaen llaw, galwch heibio.

Cewch restr o’r digwyddiadau ar-lein yn:
**Google: Digital Voice Events | Digital Home Phone | BT**

Nid BT yw’r unig ddarparwr sy’n trosglwyddo, mae Virgin Media a darparwyr eraill yn trosglwyddo hefyd felly dylech chi glywed ganddyn nhw ar yr un pryd.

**Hefyd, mae angen i bobl fod yn effro i sgamiau wrth i fasnachwyr twyllodrus geisio twyllo pobl i dalu am drosglwyddo – does dim rhaid i chi**, darparwr y gwasanaeth ffôn, e.e. BT, Virgin Media, Talk Talk ac ati, sy’n talu amdano.

**Gyda phwy alla’ i siarad os ydw i wedi cael fy sgamio?**

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
0300 123 2040

Office of the Public Guardian

**Atwrneiaeth Arhosol**
Ar hyn o bryd, mae Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnal Ymgyrch Eich Llais Eich Penderfyniad.
**Google:**
**Your voice, your decision – If you lose the ability to make certain decisions for yourself, a lasting power of attorney (LPA) lets people you trust quickly, easily, and legally step in.**
Mae Atwrneiaeth Arhosol yn ei gwneud hi’n haws i’r bobl rydych chi’n ymddiried ynddynt i’ch cefnogi chi pan fydd angen cefnogaeth arnoch fwyaf. Gallai hyn olygu help dros dro gyda’ch penderfyniadau yn ystod cyfnod byr yn yr ysbyty, neu gymorth i reoli penderfyniadau am eich

iechyd a'ch gofal yn y tymor hwy.

**Siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo.**
**Os ydych chi'n meddwl bod gwneud Atwrneiaeth Arhosol yn iawn i chi, siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo am greu un heddiw.**

Gallwch ei wneud ar-lein:
**Google:**
**Go to gov.uk/power-of-attorney**

**Gwneud atwrneiaeth arhosol**
Gallwch wneud atwrneiaeth arhosol ar-lein neu gan ddefnyddio ffurflenni papur.

Y naill ffordd neu'r llall, mae angen i chi ofyn i'r bobl eraill lofnodi'r ffurflenni, gan gynnwys yr atwrneiod a'r tystion.

Gallwch ofyn i rywun arall ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein neu lenwi'r ffurflenni papur drosoch chi, er enghraifft aelod o'ch teulu, ffrind neu gyfreithiwr.

**Mae'n costio £82 i gofrestru Atwrneiaeth Arhosol, oni bai eich bod yn cael gostyngiad neu eithriad.**

Gallwch ganslo eich atwrneiaeth arhosol os nad ydych ei heisiau mwyach neu os ydych chi am wneud un newydd.

**CPC Cymru**
Bydd cyfarfod nesaf ein **CYNGOR LLAWN** ar **16 Mai 2024** yn swyddfeydd UNITE, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9SD, gan ddechrau am 1:30 p.m.

**Ymgyrch Bysiau Gwell**




Am gyfnod rhy hir, mae pobl wedi gorfod goddef gwasanaethau annigonol. Yn rhy aml o lawer, mae bysiau yn ddrud ac yn anaml, gyda llwybrau'n cael eu torri gan fod y darparwyr preifat yn cael eu gyrru'n fwy gan elw preifat nag ethos gwasanaeth cyhoeddus.

Gallai Bil Bysiau Cymru, a gafodd ei addo ar gyfer 2024, gyfrannu rhywfaint tuag at ddatrys hyn. Ond mae Cymru yn colli allan ar gyllid ar gyfer Trafnidiaeth Bws oherwydd San Steffan. Nid yw proses "Barnett" yn gweithio i Gymru.

**Bydd CPC Cymru yn ymgyrchu dros fformiwla ariannu gwell i Gymru ar gyfer Trafnidiaeth.**

**Awgrymwn eich bod yn rhoi gwybod i'ch Aelod Seneddol! Gallwch wneud hynny ar:**
**Google: Contact your MP - UK Parliament**

**Dweud eich Dweud:**
**Os hoffech chi i ni rannu stori neu os oes gennych unrhyw sylwadau am ein cylchlythyr, cysylltwch â ni:**
**Y Golygydd, Dereck Roberts, CPC Cymru**
E-bost **info@npcwales.org**

Drwy'r Post: CPC Cymru
d/o Age Cymru
Ground Floor, Mariners House
Trident Court, East Moors
Road Caerdydd, CF24 5TD

***Beth am ymuno â Chonfensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, neu CPC Cymru?***

Rydym ni'n sefydliad gwirfoddol. Rydym ni'n sefydliad ymgyrchu gwleidyddol amhleidiol sy'n anelu at wella safonau byw a lles pob pensiynwr a darpar bensiynwr yng Nghymru.

Mae ein Cyngor Llawn yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn, fel arfer.

Mae ein Swyddogion a'n Haelodau Pwyllgor gwirfoddol, etholedig, yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Dyma yw ein hymgyrchoedd allweddol presennol:

- **Adferiad y GIG yng Nghymru**

a datblygu **gwasanaeth Gofal Cymdeithasol cwbl integredig, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen**, sef ei flaenoriaeth gyntaf.

- **Yr Argyfwng Costau Byw.**
- **Pensiynau digonol y Wladwriaeth – cynnal y clo triphlyg.**
- **Mae 68 yn rhy hwyr – yn erbyn cynyddu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth**
- **Ynni i Bawb – NA i Wres neu Fwyd**
- **Mae Cartrefi Oer yn Lladd – Rhaid inswleiddio ein cartrefi NAWR!**
- **Cysylltiadau Digidol i Bawb**

Credwn hefyd fod rhaid i fathau traddodiadol o gyfathrebu a gwasanaethau, fel wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy'r post a chan ddefnyddio arian parod fod ar gael o hyd.

- **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Bysiau a Bil Bysiau Cymru? Mae'n argyfwng ar wasanaethau bws. Mae llwybrau mewn perygl ar hyd a lled Cymru.

- **Gofal a Thrwsio Tai** Mae 13 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, bob un yn cwmpasu rhanbarth gwahanol. Rydym am i lawer mwy o addasiadau gael eu gwneud.

**Os ydych chi'n aelod o sefydliad, gall eich sefydliad lunio cysylltiad â CPC Cymru. Cysylltwch â:**

Drwy'r e-bost **affiliation@npcwales.org**

Neu drwy'r post at:
CPC Cymru
d/o Age Cymru
Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd
CF24 5TD

**Gallwch ymuno â CPC Cymru fel aelod unigol.**

Os byddwch yn ymuno â ni, gallwch ddod i'n cyfarfodydd, pleidleisio a derbyn ein cylchlythyron.

**Hoffwn ymuno â CPC Cymru fel aelod unigol**
E-bostiwch **affiliation@npcwales.org neu anfonwch drwy'r post** i'r cyfeiriad isod.

Eich Enw Llawn

Cyfeiriad
Cod Post
Rhif ffôn cartref
Rhif ffôn symudol
Cyfeiriad e-bost

Talu ffioedd cysylltu: £10:00 y flwyddyn

I dalu trwy BACS : Talwch:
Lloyds Bank, NPC Wales No.2 Account
Cod Didoli 309995 Rhif y Cyfrif 01236708
Os byddwch chi'n talu trwy BACS, sicrhewch eich bod yn cynnwys cyfeirnod sy'n nodi eich enw.
Neu talwch drwy siec yn daladwy i NPC Wales a'i hanfon i:
CPC Cymru, d /o Age Cymru, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD

Cefnogir gan

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Hyrwyddwyd a Chyhoeddwyd gan CPC Cymru, argraffwyd gan Age Cymru, oll d/o

Ground Floor Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD